

Cysylltiadau ag agweddau eraill ar y Cwricwlwm

Mae'r darnau y cyfeirir atynt isod yn darparu cyfleoedd i gysylltu â meysydd eraill o'r Cwricwlwm:


Rhifyn 11

Sylwer:


Addysg bersonol a chymdeithasol

Prif nod y rhifyn hwn yw trafod teimladau a cheir llawer o gyfleoedd i drafod sut mae'r disgyblion yn teimlo (e.e. trafod mewn cylch yn y darn **Sut ydych chi'n teimlo?**), beth sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n hapus ac yn ddiflas (yn y darn **Cyffrous!**), sut i leihau straen, ffyrdd o ymlacio ac ati.

Darn	Cyfleoedd i gysylltu â'r meysydd canlynol:
Sut ydych chi'n teimlo?	Gweler Addysg Bersonol a Chymdeithasol uchod.
Cyffrous!	Gweler Addysg Bersonol a Chymdeithasol uchod. Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> cyfle i ffilmio <i>flashmob</i>
Sut ydych chi'n ymlacio?	Addysg gorfforol / gwyddoniaeth <ul style="list-style-type: none"> Gellid trafod y berthynas rhwng chwaraeon a theimlo'n dda yn emosïynol a gellid creu ymarferion fyddai'n helpu rhywun i ymlacio a theimlo'n dda amdano'i hun.
Ymlacio ar draws y byd (1)	Daearyddiaeth <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am leoedd penodol ar fap o'r byd ac i chwilio am a chyfnewid gwybodaeth am wledydd penodol Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> chwilio am wybodaeth am wledydd penodol, e.e. Zanzibar cyflwyno gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau Cerddoriaeth <ul style="list-style-type: none"> cyfle i wrando ar gerddoriaeth taarab, i drafod offerynnau ac i fynegi barn am y gerddoriaeth cyfle i drafod yr effaith y mae darnau o gerddoriaeth yn gallu ei chael ar bobl Mathemateg <ul style="list-style-type: none"> Gellid cymharu tymheredd yr haf a'r gaeaf a thrafod gwerth arian y wlad mewn doleri / punnoedd
Teimladau mewn lluniau	Celf <ul style="list-style-type: none"> cyfle i drafod gwaith artist o wlad arall a'i harddull mynegi barn am y paentiadau creu darn o gelf sy'n mynegi teimlad, gan esbonio'r llun a'r teimlad Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau Daearyddiaeth <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am leoliad De Korea ar fap o'r byd
Ydych chi o dan straen?	Mathemateg <ul style="list-style-type: none"> cyfrifo canrannau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu



	<ul style="list-style-type: none">• trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun
Ymlacio ar draws y byd (1)	<p>Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none">• cyfle i chwilio am leoedd penodol ar fap o'r byd ac i chwilio am a chyfnewid gwybodaeth am wledydd penodol <p>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none">• chwilio am wybodaeth am wledydd penodol, e.e. India• cyflwyno gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau <p>Cerddoriaeth</p> <ul style="list-style-type: none">• cyfle i wrando ar gerddoriaeth <i>taarab</i>, i drafod offerynnau ac i fynegi barn am gerddoriaeth (wrth gymharu gwybodaeth am India gyda'r wybodaeth am Zanzibar)• cyfle i drafod effaith darnau o gerddoriaeth ar bobl <p>Mathemateg</p> <ul style="list-style-type: none">• Gellid cymharu tymheredd yr haf a'r gaeaf a thrafod gwerth arian y wlad mewn doleri / punnoedd
Problemau	<p>Gweler Addysg Bersonol a Chymdeithasol uchod.</p> <p>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none">• trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun
Marathon	<p>Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none">• cyfle i chwilio am gwrs Ras yr Wyddfa ac i greu map <p>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none">• chwilio am wybodaeth benodol• trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau
O dan y dŵr	<p>Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none">• chwilio am leoliad Llyn Celyn a Lerpwl ar fap• cyfle i ddefnyddio map i gyfrifo'r pellter rhwng Llyn Tryweryn a Lerpwl <p>Hanes</p> <ul style="list-style-type: none">• ymchwilio i ddigwyddiad hanesyddol yng Nghymru; gellid ymchwilio i ardaloedd eraill gafodd eu boddi er mwyn creu cronfeydd dŵr yn ogystal. <p>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none">• chwilio am wybodaeth• ffilmio cyfweiliadau <p>Cerdd</p> <ul style="list-style-type: none">• ymateb i ddarn o gerddoriaeth sy'n cyfeirio at foddï'r cwm• trafod gwahanol fathau o gerddoriaeth a'r effaith y gallant ei chael <p>Celf</p> <ul style="list-style-type: none">• trafod ac ymateb i lun o graffiti; cynllunio darn o graffiti i gofio am rywbeth arbennig, gan ei ddisgrifio a'i esbonio
Ymlacio ar draws y byd (3)	<p>Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none">• cyfle i chwilio am leoedd penodol ar fap o'r byd ac i chwilio am a chyfnewid gwybodaeth am wledydd penodol <p>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none">• chwilio am wybodaeth am wledydd penodol, e.e. India• cyflwyno gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau <p>Mathemateg</p> <ul style="list-style-type: none">• Gellid cymharu tymheredd yr haf a'r gaeaf a thrafod gwerth arian y wlad mewn doleri / punnoedd



Y Cwricwlwm Cymreig

Mae cyfle i ddysgu am / ymchwilio i Ras yr Wyddfa ac i wneud ymchwil pellach i ardal Eryri os yw'n briodol.

Yn gysylltiedig â'r darn **O dan y dŵr**, gellid chwilio am wybodaeth bellach am foddi Cwm Celyn, ac am Lyn Tryweryn ac afon Tryweryn heddiw. Yn ogystal, gellid chwilio am ardaloedd eraill yng Nghymru gafodd eu boddi er mwyn creu cronfeydd dŵr.

Yn ogystal, bydd cyfleoedd drwyddi draw i gwrdd â gofynion y Fframwaith Sgiliau, e.e.

Datblygu meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio, datblygu a myfyrio**:

- archwilio, cynllunio, datblygu ac ystyried syniadau drwy siarad, darllen ac ysgrifennu ac ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith eraill
- dadansoddi, strwythuro a threfnu eu gwaith
- defnyddio iaith yn greadigol
- defnyddio gwallau a chanlyniadau annisgwyl i ddatblygu eu dysgu
- defnyddio eu gwybodaeth o iaith i egluro a rhagfynegi
- adnabod patrymau a ffurfio rheolau
- trafod sut byddant yn dysgu iaith ac yn gwerthuso eu llwyddiant.

Datblygu cyfathrebu

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach**:

- cyfathrebu trwy lafaredd, darllen ac ysgrifennu, gan ddatblygu'r sgiliau hyn trwy werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eraill
- dysgu sut i gyfathrebu yn effeithiol ar gyfer ystod o ddibenion a chydag ystod o gynulleidfaoedd.
- ymdrin ag iaith estynedig a mwyfwy cymhleth er mwyn datblygu i ddefnyddio iaith yn annibynnol ac yn hyderus.

Datblygu TGCh

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd:

- cyfathrebu a rhannu gwybodaeth
- defnyddio technoleg ar gyfer ymchwil, datblygu a chyflwyno'u gwaith.

Datblygu rhif

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau**:

- defnyddio trefnolion a rhifolion
- cywain gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd
- cyrchu, dethol, cofnodi a chyflwyno data mewn gwahanol fformatau.

[Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, 2008, tud. 7]